**Memorandwm Esboniadol ar Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
26 Ionawr 2021

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy mewn is-etholiadau llywodraeth leol penodol a gynhelir rhwng y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac 4 Tachwedd 2021.

1.2. Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn darparu sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys yn yr is-etholiadau hyn. Mae'r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i ddilyn deddfwriaeth berthnasol neu ganllawiau neu gyngor meddygol perthnasol mewn perthynas â'r pandemig COVID-19 yn ogystal â chaniatáu i'r rhai sydd â phleidlais ddirprwy bresennol newid eu dirprwy enwebu os bydd yn rhaid i'r unigolyn enwebedig ynysu.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Daw'r Rheoliadau i rym ar 25 Chwefror 2021, a byddant yn gymwys i bob is-etholiad a gynhelir ar ôl y dyddiad hwn.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan baragraff 4(2)ac 6(7) ac 8 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Mesurau dros dro yw'r Rheoliadau er mwyn darparu pleidlais drwy ddirprwy brys pan fo unigolyn yn dilyn cyngor y llywodraeth neu gyngor meddygol i hunanynysu mewn perthynas â COVID-19.

4.2. Mae cyfyngiad amser ar y darpariaethau a byddant yn peidio â chael effaith ar ôl 4 Tachwedd 2021.

4.3. Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith etholiadol yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle y gall fod angen i etholwyr wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy oherwydd bod rhaid iddynt hunanynysu yn sgil COVID-19. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer pleidleisiau a gynhelir yn y dyfodol agos, pan fo feirws COVID-19 yn debygol o ddal i fod ar led yn ein cymunedau.

<u>Pleidlais drwy ddirprwy i'r rhai sy'n gwarchod eu hunain</u>

4.4. Mae paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pleidlais absennol mewn etholiad penodol. Mae paragraff 4(2)(a) yn darparu'n benodol y bydd Swyddog Canlyniadau yn cymeradwyo cais i bleidleisio drwy ddirprwy pan fydd wedi'i fodloni y bydd amgylchiadau'r ceisydd ar ddyddiad y bleidlais yn golygu, neu'n debygol o olygu, na ellir disgwyl yn rhesymol i'r ceisydd bleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio berthnasol. Byddai amgylchiadau unigolion sy'n hunanynysu yn berthnasol i'r categori hwn.

4.5. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 56 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn estyn y categorïau o bobl a gaiff wneud cais am ddirprwy brys i gynnwys unigolion na all bleidleisio yn bersonol gan eu bod yn dilyn deddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru neu gyngor meddygol mewn perthynas â'r coronafeirws a hunanynysu.

4.6. Dros dro yw'r newidiadau ac ni fyddant ond yn gymwys i etholiadau a gynhelir hyd 4 Tachwedd 2021.

4.7. Rhaid i gais am ddirprwy brys ar sail feddygol gynnwys ardystiad gan weithiwr proffesiynol perthnasol. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod gofyniad ar gyfer ardystiad ar unigolion na all bleidleisio yn bersonol gan eu bod yn dilyn cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor meddygol i hunanynysu. Mae hyn yn adlewyrchu'r anawsterau y gall rhywun sy'n hunanynysu neu'n gwarchod ei hun eu hwynebu wrth geisio cael ardystiad gan berson annibynnol addas.

**5. Ymgynghori**

**6. 5.1. Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Ceisiwyd barn y Comisiwn Etholiadol ac ystyriwyd eu sylwadau y dylai'r darpariaethau hefyd ymestyn i etholwyr â dirprwy presennol wrth ddrafftio'r rheoliadau.Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1. Nid ystyrir y bydd y rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ariannol sylweddol, felly ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol.